**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref KW/01725/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

25 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch am y llythyr dyddiedig 17 Hydref gan Katherine Drinkwater am y ddeiseb sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gael gwared ag elfen orfodol Bagloriaeth Cymru ac adolygu strwythur y cymhwyster.

Fel cymwysterau eraill, nid yw Bagloriaeth Cymru yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 nac ar gyfer dysgwyr ôl-16. Er hynny, rwy'n annog dysgwyr i astudio tuag at y cymhwyster gan ei fod yn rhoi hwb ychwanegol iddynt, gan ehangu eu dysgu a sicrhau eu bod yn datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt ym myd gwaith ac yn y brifysgol.

Yn ei llythyr mae Ms Drinkwater yn cyfeirio at ymchwil a wnaed i Fagloriaeth Cymru, ond nid y fersiwn o'r cymhwyster a ystyriwyd gan yr ymchwilwyr yw'r un a astudir naill ai yng Nghyfnod Allweddol 4 na gan ddysgwyr ôl-16 ar hyn o bryd. Cyflwynwyd Bagloriaeth ddiwygiedig ym mis Medi 2015 yn unol ag argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru.

Mae Cymwysterau Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o Fagloriaeth Cymru a bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Hoffwn eich sicrhau nad yw'r manylebau presennol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 nac ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn cymeradwyo ymddygiad na chynnwys sy'n niweidiol i les dysgwyr, er enghraifft gamblo neu annog dysgwyr i fod yn anghyfrifol ag arian.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff yr holl friffiau her ar gyfer Bagloriaeth Cymru eu cymeradwyo gan CBAC, a gall y dysgwyr ddewis pa un o'r heriau maent am eu gwneud.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education